PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

DYFODOL

Ysbrydoli cenhedlaeth

Iwan Williams

Peiriannydd Prosiect

Oed 32

Beth ydy dy waith di ar hyn o bryd?

Dwi'n Beiriannydd Prosiect ac wedi bod yn helpu i gwblhau cam cyntaf yr ymchwiliadau archeolegol yn safle Wylfa Newydd. Roedd hwn yn brosiect cyffrous iawn, a dyma oedd y cynllun cloddio mwyaf yn Ewrop. Dwi'n rhan o dîm goruchwylio'r gwaith adeiladu, sef tîm cyflawni haen 1 sy'n gyfrifol am adeiladu Wylfa Newydd. Rydan ni wrthi'n datblygu ein cynlluniau adeiladu ar hyn o bryd, cyn i ni osod y darn cyntaf o goncrit niwclear ar y safle, a fydd yn dechrau'r cam adeiladu.

Pa bynciau wnest ti astudio yn yr ysgol a pha gymwysterau sydd gen ti?

Mi wnes i adael ysgol ym Mhorthmadog gyda 12 TGAU (A-C), a chael cynnig ysgoloriaeth lawn yn Kansas City College, UDA. Yno, mi ges i gyfle i chwarae pêl-droed llawn-amser wrth wneud fy astudiaethau. Mi wnes i raddio gyda gradd mewn Busnes, cyn dechrau ar fy ngyrfa niwclear yn Nhrawsfynydd gyda Magnox. Ers hynny, dwi wedi ennill cymwysterau ym maes diogelwch ymbeldydredd a rheoli prosiect, a dwi'n gwneud meistr mewn Rheoli Prosiect ar hyn o bryd.

Dy yrfa hyd yn hyn...

Mi ges i gyfle i weithio ar sawl prosiect yn yr Adran Ffiseg Iechyd yn Nhrawsfynydd, yn cynnwys tynnu peiriannau a dymchwel strwythurau ar y safle, rhoi cyngor ar ymbelydredd a chyfyngiadau halogi. Yn ystod secondiad yng ngorsaf bŵer Wylfa Magnox, mi ges i brofiad gwerthfawr yn gweithio ar safleoedd datgomisiynu a gorsafoedd pŵer sy'n cynhyrchu. Ar ôl treulio pum mlynedd yn arbenigo mewn ffiseg iechyd, mi wnes i benderfynu newid llwybr fy ngyrfa a chael cynnig secondiad dwy flynedd i rôl ddatblygu yn safle Berkeley Magnox. Ar ôl chwe mis r'on i'n rheolwr ar brosiect a lwyddodd i adeiladu cyfleuster gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer storio gwastraff ymbelydrol. Mi symudais i Horizon wedyn, a dyna lle dwi'n gweithio ers 2014.

Sut mae'r wybodaeth gefaist ti yn dy swyddi eraill wedi dy helpu i gael dy swydd efo Horizon?

Dwi wedi bod yn ffodus i gael gweithio ar safleoedd datgomisiynu a safleoedd sy'n cynhyrchu. Mae hynny wedi bod yn allweddol er mwyn ehangu fy ngwybodaeth dechnegol a'r profiad sydd gen i o'r diwydiant niwclear yn gyffredinol.

Beth fyddai dy awgrymiadau di i rywun sydd eisiau cael gwaith yn y diwydiant niwclear?

- Os ydach chi'n dal i astudio, cofiwch ganolbwyntio ar y pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg). Mae'r rhain yn rhan ganolog o'n gwaith technegol, ac yn berthnasol i'r Prosiect i gyd.
- Mae datblygu sgiliau craidd – fel cyfathrebu, gweithio mewn tîm a datrys problemau – yn bwysig iawn, yn enwedig wrth ddefnyddio gwybodaeth dechnegol iawn a gweithio gyda llawer o dimau.
- Mae'n rhaid bod gennych chi'r uchelgais a'r brwdfrydedd i ehangu'ch gorwelion mewn gwahanol adrannau ac ar draws y sector niwclear, er mwyn i chi gael mwy o brofiad yn y diwydiant cyffrous yma.

Ble wyt ti'n meddwl fyddi di mewn 10 mlynedd yn dy yrfa?

Fy uchelgais i ydy cael swydd uwch ym maes Rheoli Prosiect yn Horizon. Mi hoffwn i gael y cyfrifoldeb o gyflawni prosiectau mawr, er mwyn herio fy ngallu fy hun a chael mwy o brofiadau gwerthfawr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **www.horizonnuclearpower.com/dyfodol**